Cyngor Sir CEREDIGION CEREDIGION County Council

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
Papur Pwnc
Yr Iaith Gymraeg

2008

Bryan Thomas, MCIEH, FRSH

Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117

Director of Environmental Services and Housing,
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA
Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117

6. Materion a gaiff sylw drwy'r CDLl (gan gynnwys nodi unrhyw gyfleoedd neu gyfyngiadau posib)

6.1.1 Mae'n amlwg o ddarllen y cyfarwyddyd cenedlaethol bod disgwyl i'r system gynllunio gynorthwyo cynnal yr iaith Gymraeg. Mae'n anodd dychmygu pa faterion y bydd y CDLl yn gallu rhoi sylw iddynt o ran yr iaith Gymraeg.

6.1.2 Gall polisïau megis datblygu fesul cyfnod gyfyngu ar effeithiau mewnfudo ar y cymunedau presennol drwy atal mewnlifiad o breswylwyr newydd y byddai llawer ohonynt yn Ddi-Gymraeg.

6.1.3 Gallai polisïau tai fforddiadwy chwarae rhan gyfyngedig o ran cynnal yr iaith Gymraeg drwy gynorthwyo pobl leol i brynu tai yn y sir. Fodd bynnag, yn ôl y cyfarwyddyd ni chaiff y polisïau hyn wahaniaethu ar sail iaith, ac felly ar y gorau ni chânt ond effaith gyfyngedig ar wead ieithyddol y sir.

6.1.4 Mae'n bwysig cydnabod bod gwahaniaeth mawr rhwng yr ardaloedd hynny lle mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg (Tref Llandysul, 70%) a'r ardaloedd lle mae'r canrannau isaf (Llanbadarn Fawr- Sulien, 23%). O'r herwydd efallai y byddai'n ddoeth arfer dulliau polisi gwahanol felly, er enghraifft yng Nghyd Gynllun Datblygu Unedol Sir Benfro (Cyngor Sir a Pharc Cenedlaethol Sir Benfro, 2006) dim ond yn yr wardiau hynny lle mae mwy na 30% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg y caiff polisi'r iaith Gymraeg ei gymhwyso.

6.1.5 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Gwynedd ill dau wedi llunio 'Arweiniad Technegol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (2007) sydd wedi ei lunio i gynnal y cymunedau hynny lle mae 50% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r arweiniad wedi ei seilio ar y fethodoleg asesu ieithyddol a amlinellir yn 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen' a gyhoeddwyd yn 2005 a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â nifer o awdurdodau lleol. Peilotwyd yr arweiniad am 6 mis gan ddechrau ym mis Ebrill 2007, ond mae'r cyfnod hwnnw wedi ei ymestyn a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron pwyllgor cynllunio'r Parc yng Ngwanwyn 2008. Bydd angen ystyried a ddylid mabwysiadu dull tebyg yn CDLl Ceredigion.

6.1.6 Gallai lleoliad bras datblygiadau gyfrannu hefyd at gynnal yr iaith Gymraeg.

6.1.7 Os gellir sicrhau bod cyfleoedd digonol i economi'r Sir dyfu, bydd hynny'n helpu cadw pobl ifanc yn y Sir. Dylai hynny helpu'r iaith gan mai dyma'r grŵp oedran a fydd wedi manteisio ar addysg Gymraeg orfodol.

6.1.8 Annog busnesau preifat a chyhoeddus i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar eu harwyddion. Mae lle i hynny.